# JONES, WILLIAM (1826 - 1899), ysgrifennydd y 'Peace Society,'

**Enw:** William Jones
**Dyddiad geni:** 1826
**Dyddiad marw:** 1899
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgrifennydd y 'Peace Society,'
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Annie Grace Bowen-Jones

ac olynydd Henry Richard; mab John Jones y Crynwr, Rhuthyn, a gor yr Jonathan Hughes y bardd. Bu yn ysgol y Crynwyr yn Ackworth. Yn ddiweddarach penodwyd ef yn bennaeth comisiwn i ymgeleddu trigolion yr Almaen a dwyrain Ffrainc adeg y rhyfel a dorrodd allan yn 1870. Tua'r adeg yma daeth i gyffyrddiad â John Bright, a daeth y ddau yn gyfeillion mynwesol. Cafodd William Jones ymgom, ymysg eraill, gyda'r arlywydd Cleveland, U.D.A., a Li Hung Chang, ar gwestiynau heddwch cyd-genedlaethol. Bu farw 10 Mai 1899 yn Sunderland, lle y claddwyd ef.

## Awdur

**Annie Grace Bowen-Jones**

## Ffynonellau

Grace Roberts (= Mrs. A. G. Bowen-Jones) yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, xxix

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 309711886

Wikidata: Q20734664

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu